# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)19-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 24 Mehefin 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)18-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 17 Mehefin 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)18-08(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn 4.30pm ar gyfer busnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 24 ac 25 Mehefin 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)18-08(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf **- BC(3)18-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Papur ar drefn busnes y Cynulliad - BC(3)19-08(p4)**

3.6 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur am drefn busnes y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Rheolwyr Busnes yn cysylltu â'r Aelodau ynghylch materion a godwyd yn y papur ac yn ailystyried y mater yn ei gyfarfod nesaf wrth drafod ymatebion yr Aelodau. Yna, byddai'n trafod y papur yn llawn ac yn dod i benderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 8 Gorffennaf.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad - BC(3)19-08(p5)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Safonau i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar ôl y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15

Gorffennaf i drafod yr ymatebion cychwynnol i'w ymgynghoriad ynghylch mesur i greu rôl Comisiynydd Safonau; a hefyd dydd Mawrth 24 Mehefin i ddelio â materion eraill.

**Cais newydd gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ymweld â Sir Benfro a Cheredigion - BC(3)19-08(p6)**

4.2 Trafododd a chytunodd y Pwyllgor Busnes â chais newydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ymweld â Sir Benfro a Cheredigion ar 3 Gorffennaf, fel rhan o'i ymchwiliad i ad-drefnu ysgolion yng nghefn gwlad Cymru.

**Cais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal cyfarfod pwyllgor ffurfiol ychwanegol yn Sioe Frenhinol Cymru - BC(3)19-08(p7)**

4.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Deisebau i gynnal cyfarfod anffurfiol brynhawn dydd Mercher, 23 Mehefin 2008, yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ystod y toriad a bod y Llywydd wedi cael gwybod amdano, yn unol â Rheol Sefydlog 10.41.

**5. Deddfwriaeth**

**Papur esboniadol ac amserlen enghreifftiol ar gyfer y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) - BC(3)19-08(p8)**
**Papur ategol - BC(3)19-08(p9)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru). Cytunwyd y byddai Pwyllgor Cam 1 yn cael ei sefydlu i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur, ac y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 7 Tachwedd 2008. Er mwyn cwrdd â'r terfyn amser hwn, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael ei sefydlu'n ddigon buan i gyfarfod am y tro cyntaf cyn toriad yr haf.

5.2 I hybu gwaith Pwyllgor Cam 1, ac i nodi tystion ac ymgynghoreion posibl, gofynnwyd i'r Llywodraeth sicrhau bod yr ymgynghoriad cyn y broses ddeddfu'n cael ei wneud yn gyhoeddus.

5.3 Cyfeiriodd Kirsty Williams at drafodion Pwyllgor Cam 2 ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Dywedodd fod problemau wedi codi oherwydd na chafwyd Pwyllgor Cam 1. Nododd y Pwyllgor Busnes fod ei benderfyniad i beidio â chyfeirio'r Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr at Bwyllgor Cam 1 wedi'i seilio ar ymgais i beidio â dyblygu'r gwaith craffu cyn y broses ddeddfu a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Dysgu. O ystyried hyn, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr egwyddor cyffredinol mai'r Pwyllgorau Deddfwriaethol, yn hytrach na'r Pwyllgorau Craffu, ddylai graffu ar ddeddfwriaeth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes na ddylai hyn rwystro'r Pwyllgorau Craffu rhag ystyried cynigion deddfwriaethol drafft a, lle bo hynny'n briodol, dylai'r gwaith hwnnw gael ei fwydo i waith Pwyllgor Deddfwriaethol Cam 1.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**